

---

## **Cyflwyno'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd newydd**

Cynigion diwygiedig ar gyfer gwybodaeth flynyddol am  
y tariff gorau a diffiniadau cwsmeriaid busnes

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 24 Gorffennaf 2020

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 11 Medi 2020

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

**Mae tegwch i gwsmeriaid yn flaenoriaeth i Ofcom, ac mae gennym gynllun gwaith sylweddol i helpu i gyflawni hyn. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno mesurau diogelu newydd ar gyfer cwsmeriaid yn dilyn newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio Ewropeaidd.**

Fel rhan o'r gwaith hwn, ym mis Mai 2019, gwnaethom gadarnhau rheolau newydd sy'n golygu bod rhaid anfon negeseuon atgoffa at gwsmeriaid band eang, ffôn a theledu drwy dalu sydd y tu allan i gontract yn dangos y bargeinion gorau sydd ar gael iddynt bob blwyddyn. Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom gynnig pecyn arall o fesurau i ddiogelu cwsmeriaid a helpu i sicrhau eu bod yn cael bargaen deg. Roedd y mesurau a'r cynigion hyn yn ymateb i newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio Ewropeaidd, ac mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y byddant yn cael eu cyflwyno erbyn 21 Rhagfyr 2020. Rydym nawr yn ymgynghori ar ddau gynnig diwygiedig cyn cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol yn Hydref 2020.

## **Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno**

**Diwygio cwmpas ein rheolau am wybodaeth flynyddol am y tariff gorau.** Mae'r rheolau y gwnaethom eu cadarnhau ym mis Mai 2019 yn mynnu bod darparwyr yn anfon gwybodaeth flynyddol am y tariff gorau at gwsmeriaid sydd ar unrhyw fath o gontract, gan gynnwys contractau symudol talu ymlaen llaw. Mewn ymateb i'n hymgyngoriad ym mis Rhagfyr 2019, cododd darparwyr nifer o bryderon am y dull hwn, gan gynnwys bod cwsmeriaid symudol talu ymlaen llaw yn gwybod nad ydynt yn rhwym wrth gontract ac felly maent yn newid rhwng gwahanol becynnau yn aml. Ers hynny, rydym wedi adolygu ein dull ac rydym nawr yn cynnig mai dim ond pan oedd y cwsmer yn rhwym wrth gyfnod contract sylfaenol, sydd wedi dod i ben ers hynny, y mae angen anfon gwybodaeth flynyddol am y tariff gorau. Bydd hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o gwsmeriaid symudol talu ymlaen llaw, os nad pob un. Bydd yr holl gwsmeriaid ffôn, band eang a theledu drwy dalu sydd wedi bod, neu sydd wedi aros, 'y tu allan i gontract' am flwyddyn yn cael negeseuon atgoffa a gwybodaeth flynyddol am y tariff gorau fel y nodir yn ein rheolau presennol.

**Diwygio ein diffiniadau arfaethedig ar gyfer cwsmeriaid 'microfusnesau', 'busnesau bach' a sefydliadau dim-er-elw.** Mae'r fframwaith rheoleiddio Ewropeaidd newydd yn cynnwys mesurau i ddiogelu microfusnesau, cwsmeriaid busnesau bach a sefydliadau dim-er-elw. Mae'r fframwaith yn ystyried bod y cwsmeriaid hyn mewn sefyllfa debyg i gwsmeriaid preswyl, ac felly bod angen gwarchodaeth debyg arnynt. Yn ein hymgyngoriad ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom gynnig diffiniadau ar gyfer y grwpiau hyn o gwsmeriaid, gan ystyried canllawiau perthnasol yr UE. Dadleuodd nifer o ymatebwyr fod y diffiniadau'n rhy eang a bod perygl o gynnwys sefydliadau a busnesau sydd ddim angen yr un lefel o warchodaeth â chwsmeriaid preswyl. Tynnodd rai ymatebwyr sylw at yr anawsterau ymarferol wrth gymhwyso'r diffiniadau hyn. Rydym nawr yn ymgynghori ar ddiffiniad diwygiedig ar gyfer cwsmeriaid microfusnesau a busnesau bach, ynghyd â sefydliadau dim-er-elw.

## **Y camau nesaf**

Rydym yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 11 Medi 2020. Yn Hydref 2020, rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniad am gynigion diwygiedig y ddogfen hon, ynghyd â'r rheini a nodwyd yn ein hymgyngoriad ym mis Rhagfyr 2019.